

Adroddiad Blynyddol 2021


Pobl a Gwaith Adroddiad Blynyddol 2021

Cyflwyniad gan y Cadeirydd

Rwy'n ysgrifennu hyn ym mis Mai 2021. Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn ddigynsail, yn drasig i rai. Drwy gydol y cyfnod hwn mae Pobl a Gwaith wedi parhau i weithio dros bobl y Rhondda a ledled Cymru, er bod cyswllt wyneb yn wyneb wedi'i gyfyngu am gyfnodau hir, ac effeithiwyd yn benodol ar rai prosiectau. Mae rhai prosiectau wedi gallu newid i helpu yn y sefyllfa Covid. Mae staff wedi croesawu'r model gweithio gartref, er y cydnabyddir bod angen model gwaith hybrid i staff weithredu a datblygu'n llawn, wrth symud ymlaen. Rydym bellach mewn sefyllfa well o lawer o ran y brechlyn a chyfraddau heintio Covid a gobeithio y bydd y gwelliant hwn yn parhau.

Mae'r sefyllfa economaidd yn ansicr, ond rhaid cydnabod y bydd sgil-ffeithiau o ran methiannau busnesau, diweithdra ac yn benodol o ran y cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael, yn enwedig i bobl ifanc. Mae diweithdra yn y Rhondda wedi dyblu mewn blwyddyn. Mae Pobl a Gwaith yn cydnabod mai cyflogaeth yw'r ffocws allweddol i wella cyfleoedd bywyd pobl. Addysg, hyfforddiant a chymorth i bobl fynd i mewn i'r farchnad lafur a sicrhau swyddi yw cynhwysion allweddol ein gwaith.

Yn ariannol, mae Pobl a Gwaith mewn sefyllfa dda ar hyn o bryd, gyda digon o ffynonellau cyllid a chontractau ymchwil wedi'u sicrhau. Bydd rhaid aros i weld sut y gallai'r dirwedd ariannu newid. Mae angen i Pobl a Gwaith hefyd weithio ar ei rôl lobio, o ran datblygu perthynas gyda sefydliadau eraill, a'u darbwylllo ynghylch yr hyn sydd ei angen a'r hyn sy'n gweithio, o ystyried ei brofiad hir.



Gerard McHugh
Cadeirydd, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Cyflwyniad

Mae Pobl a Gwaith yn ceisio gwneud gwahaniaeth drwy ddwy swyddogaeth graidd:

- hyrwyddo gwerth addysg a dysgu (i bob grŵp oedran) fel dull o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hyrwyddo cyflogaeth, drwy raglen o brosiectau ymchwil weithredu a menter gymdeithasol yn y gymuned; ac
- ymgymryd â gwaith ymchwil a gwerthuso a gomisiynwyd ar gyfer y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru gan fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn meysydd fel addysg (ffurfiol ac anffurfiol), iechyd a chyflogaeth.

Mae gwaith ymchwil weithredu a menter gymdeithasol sydd wedi'i hunangynhyrchu gan Pobl a Gwaith yn cael ei gyllido drwy ymddiriedolaethau a chronfeydd elusennol. Daw incwm a enillir o waith ymchwil a gwerthuso a gomisiynwyd a wneir ar gyfer y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol. Mae unrhyw warged a enillir drwy'r contractau ymchwil a gwerthuso yn mynd i waith ymchwil weithredu sy'n ceisio meithrin dealltwriaeth o ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau tlodi, yn enwedig mewn perthynas â chanlyniadau addysg, iechyd a chyflogaeth.

- Dr Duncan Holtom yw pennaeth y tîm ymchwil gan weithio gyda Rhodri Bowen, uwch-ymchwilydd, a Heather Pells.
- James Hall sy'n arwain ein gwaith prosiect a phartneriaeth gan weithio gyda James Watts-Rees, Tomas Jenkins, Rhian Edwards ac Ethan Jones.
- Natasha Burnell sy'n arwain ar fenter gymdeithasol a chynaliadwyedd amgylcheddol.
- Ann Churcher sy'n rheoli ein gweinyddu.

- Sarah Lloyd-Jones yw'r cyfarwyddwr ac mae'n gweithio gyda'n Hymddiriedolwyr – Ged McHugh (Cadeirydd), Jan Huyton (Is-Gadeirydd), Phil Watkins (Trysorydd), Gareth Lewis, Christala Sophocleous, David Rees, Mary-Ann McKibben a Gordon Davies.

Pan ysgrifennwyd ein hadroddiad blynyddol diwethaf roedd yn anodd dychmygu y byddai cyfyngiadau symud COVID-19 yn parhau am flwyddyn arall ond, fel y rhan fwyaf o elusennau, rydym wedi addasu i'r cyfyngiadau dros y flwyddyn ddiwethaf a chanolbwyntio ar yr hyn y gallem ei wneud, yn hytrach na'r hyn na allem ei wneud.

Rydym i gyd wedi dod yn gyfarwydd â gweithio gyda Zoom a Teams ac mae'r tîm cyfan wedi bod yn gweithio gartref am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ddiwethaf. Rydym bellach yn cymryd camau gofalus tuag at agor i fyny, cynllunio gwaith newydd gyda'r gymuned, cyfarfodydd gyda phartneriaid ac agor swyddfa Rhondda. Mae ein goroesiad fel tîm drwy'r cyfnod hwn wedi'i gynorthwyo'n fawr gan gefnogaeth Sefydliad Rank, a weithredodd yn gyflym i gefnogi'r sector, ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt. Rydym hefyd yn ddiolchgar i hyblygrwydd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, a'n galluogodd ni a'n partneriaid yn rhwydwaith Llechi, Glo a Chefn Gwlad i ail-lunio ein gwaith i fodloni'r cyfyngiadau a osodwyd gan gyfyngiadau symud a'r anghenion cymunedol newydd a ddaeth i'r amlwg.

Mae ein gwaith yn y flwyddyn ddiwethaf wedi canolbwyntio ar gyflogaeth a datblygu economaidd cymunedol, gan ganolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy; iechyd meddwl a llesiant; cefnogi'r sector gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru, yn enwedig o ran gwerthuso; ac allgáu digidol. Yn anochel, mae'r themâu hyn yn gorgyffwrdd ac mae llawer o'r gwaith wedi gallu cyffwrdd â'r phob un o'r themâu. Mae edefyn 'dysgu' a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn i gymunedau ac unigolion ffynnu wedi'i blethu drwy'r holl waith ac wrth i ni edrych ymlaen at y pum mlynedd nesaf rydym yn adeiladu ar yr hyn rydym yn ei ddysgu.

Cyflogaeth a Datblygu Economaidd Cymunedol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi dechrau gwerthusiadau o dair rhaglen a gyllidir gan ESF i gynorthwyo pobl sydd mewn gwaith neu i mewn i waith:

- Yn Ynys Môn mae'r rhaglen Ehangu Gorwelion Môn yn targedu pobl sydd mewn gwaith sgiliau isel neu ansicr i adeiladu ar eu sgiliau a dod o hyd i waith gwell;
- Rhaglen gwrth-dlodi yw Sgiliau@Gweithle sy'n gweithio yng Nghaerdydd, Casnewydd a Sir Fynwy gyda phobl sydd mewn cyflogaeth ond sydd â sgiliau isel;
- Mae'r rhaglen Siwrne i Waith yn gweithio i ddatblygu cyflogadwyedd pobl leol sy'n economaidd anweithgar a/neu sy'n ddi-waith yn y tymor hir yng Nghasnewydd, Caerdydd a Sir Fynwy.

Rydym wedi adeiladu ar yr ymchwil a wnaethom yn 2019 ar [anghenion cymorth cyflogaeth a sgiliau i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru](#) pan gawsom ein comisiynu gan Lywodraeth Cymru i ddeall y bylchau sgiliau yn y farchnad lafur leol/ranbarthol a chyfleoedd i ffoaduriaid gynyddu eu rhagolygon cyflogaeth yng Nghymru. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: <https://llyw.cymru/ailgychwyn-integreiddio-ffoaduriaid-cyfleoedd-ymgysylltu-chyflogwyr>

Ar ddiwedd 2020, lanswyd ein prosiect ein hunain i gynorthwyo'r bobl yr oedd y pandemig wedi effeithio ar eu cyflogaeth. Mae'r rhaglen Golau Gwyrdd yn cefnogi pobl yn Rhondda sydd wedi 'disgyn drwy'r bylchau' o ran darpariaeth cymorth cyflogaeth. Nid oes meini prawf cymhwystra ac mae'r prosiect yn gweithio gyda phobl sydd mewn cyflogaeth neu'r rhai nad ydynt yn gweithio. Mae ganddo'r hyblygrwydd i ymateb i anghenion unigol ac yn y chwe mis cyntaf mae wedi cefnogi 35 o bobl ag anghenion mor eang â chael cerdyn CSCS i allu gweithio ar safleoedd adeiladu, cefnogi rhywun a oedd wedi bod yn yr un swydd

am ugain mlynedd wedyn a gafodd ei ddiswyddo yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf i ysgrifennu CV a datblygu strategaeth chwilio am swydd, a helpu pobl i fynd i'r afael â rhwystrau amrywiol sy'n atal dod o hyd i gyflogaeth, fel llety, methu mynd ar-lein a diffyg hyder. Roedd un person ifanc wedi bod ar brentisiaeth ar gyfer peirianeg hyd nes iddi golli ei swydd yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf. Roedd Golau Gwyrdd wedi ei helpu i ddod o hyd i waith dros dro a pharhau i'w chefnogi hyd nes iddi ddod o hyd i brentisiaeth newydd ym maes peirianeg. Mae'r prosiect yn cael ei gyflwyno'n bennaf gan Tomas Jenkins, sydd â lleoliad dan hyfforddiant gyda Pobl a Gwaith a ariennir gan Sefydliad Rank. Mae Tomos yn dilyn cymhwyster mewn cwnsela ochr yn ochr â'i waith. Gwnaeth hefyd sicrhau grant gan Confused.com i gyllido cymorth ar gyfer y cyfranogwyr.

Datblygu economaidd cymunedol cynaliadwy

Mae Pobl a Gwaith wedi cyflogi tri arweinydd cymunedol ifanc o'r Rhondda dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae dau ohonynt wedi'u cyllido gan raglen Time to Shine Sefydliad Rank, fel rhan o brosiect Llechi, Glo a Chefn Gwlad. Mae'r prosiect yn dwyn ynghyd naw partner o bob rhan o Gymru sy'n canolbwyntio ar ddatblygu economaidd cymunedol a'r economi sylfaenol, boed mewn gwaith seiliedig ar le i adeiladu menter a sgiliau, cefnogi busnesau lleol bach a menter gymdeithasol, a/neu fynd i'r afael â thlodi a'r allgáu a brofir gan ofalwyr. Mae Pobl a Gwaith yn hwyluso'r prosiect hwn yn ogystal â'n gwaith yn y Rhondda, a ninnau'n un o'r partneriaid, a thrwy gydol y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cyfarfod yn wythnosol, gan rannu profiad a gwybodaeth. Mae partneriaid wedi ymateb i'r pandemig drwy ddarparu cymorth brys a pharhaus yn y gymuned, gan helpu busnesau lleol i oroesi a mynd i'r afael â'r argyfwng sy'n wynebu cyflogaeth pobl ifanc mewn ffyrdd amrywiol, gan gynnwys tri phartner sydd wedi derbyn hyfforddeion wedi'u cyllido gan Kickstart yng ngwanwyn 2021. Mae Pobl a Gwaith yn cynnig tair hyfforddeiaeth Kickstart yn y Rhondda yn seiliedig ar ein gwaith gyda chynhwysiant digidol, chwaraeon a ffitrwydd, a manwerthu.

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, yn enwedig ar sgiliau codio a datblygu clybiau codio i blant a phobl ifanc. Yn ystod y cyfyngiadau symud datblygodd Ethan Jones lwyfan ar-lein drwy YouTube, i ddarparu hyfforddiant sgiliau ym maes codio.

https://www.youtube.com/channel/UC8_1xSsVRH4CJ9ndun8Cw7Q/featured

Rhondda Web

Mae ein hymchwil gyda'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau a phartneriaeth Llechi, Glo a Chefn Gwlad ar sut y gwnaeth cymunedau Cymru ymateb i'r cyfyngiadau symud cyntaf wedi dechrau dangos effaith allgau digidol i bobl a gafodd eu hynysu gartref, plant yr oedd angen iddynt gael mynediad at waith ysgol ar-lein a phobl sy'n chwilio am swyddi.¹ Arweiniodd hyn at ddatblygu prosiect Rhondda Web i ddatblygu mynediad pobl at y sgiliau, yr offer a'r data sydd eu hangen arnynt i weithredu ar-lein. Roeddem yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid gan Sefydliad Moondance i alluogi Ethan i aros gyda Pobl a Gwaith ar ôl cwblhau ei leoliad arweinyddiaeth Time to Shine a, gyda chyllid ychwanegol gan Sefydliad Rank i brynu offer, mae bellach yn cyflwyno Rhondda Web, gan roi mynediad i bobl at offer digidol a data a hyfforddiant ar sut i'w defnyddio.



PIAS

Mae menter gymdeithasol PIAS (Gadael Ni Chwarae) yn ceisio hyrwyddo cyfleoedd i bobl yn y Rhondda i ddod yn gorfforol egniol drwy werthu cit chwaraeon fforddiadwy a defnyddio'r incwm a gynhyrchir i gyllido gweithgareddau. Mae PIAS wedi cael trafferth eleni o ran dod o hyd i ddillad a chit chwaraeon a roddir (y prif ffynonellau oedd drwy finiau casglu mewn

¹ [A Community response to Covid-19 \(peopleandwork.org.uk\)](https://peopleandwork.org.uk)
[Ymateb Cymunedau i Covid \(peopleandwork.org.uk\)](https://peopleandwork.org.uk)

canolfannau hamdden ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae canolfannau o'r



fath wedi'u cau neu, pan oeddent ar agor, nid oeddent yn caniatáu'r biniau) ac o ran gwerthu (roedd y brif allfa, Too Good to Waste yn Ynysir, ar gau am ran helaeth o'r flwyddyn). Serch hynny, mae'r fenter wedi parhau i ddatblygu, gan ganolbwyntio ar ei hail nod o hyrwyddo cynaliadwyedd a newidiadau amgylcheddol. Sicrhaodd PIAS gyllid ychwanegol gan raglen gweithredu dros yr hinsawdd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i brynu car trydan a sefydlu pwynt gwefru yn y Rhondda sydd wedi'i osod yn . Mae'r car yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo'r defnydd o gerbydau trydan, yn ogystal â darparu cludiant i bobl gael mynediad at weithgareddau ffitrwydd.

Gan adeiladu ar y thema hon, mae PIAS yn cefnogi grŵp o bobl leol sydd â diddordeb mewn sefydlu siop dim gwastraff yn y Rhondda, ochr yn ochr â chanolfan lesiant sy'n creu cyfleoedd i bobl fod yn egnïol. Y nod yw i'r grŵp ddod yn annibynnol dros y 18 mis nesaf, gan arwain menter newydd yn y Rhondda.

Llunio economi newydd i Gymru

Gwnaethom ddefnyddio ein gwaith ymchwil a phartneriaeth, a hefyd cyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol, i ddatblygu darn meddwl ar gyfer WCVA sy'n trafod [rôl y sector gwirfoddol wrth lunio economi newydd i Gymru](#), o ystyried effaith Brexit a'r pandemig hefyd.

Iechyd Meddwl a Llesiant

Ers cryn amser, mae llesiant wedi bod yn faes allweddol o bwys i Pobl a Gwaith. Mae'n darparu fframwaith gwerthfawr ar gyfer meddwl am bobl a chymunedau yn gyfannol gan ei fod yn cynnwys iechyd meddwl a chorfforol, parthau economaidd a chymdeithasol/emosiynol. Rydym wedi bod yn glir ers amser maith bod targedu dim ond un neu ddau o'r parthau yn aneffeithiol a lle y bo'n bosibl ein dull yw cefnogi'r tri. Mae iechyd meddwl a chorfforol gwael, er enghraifft, yn ffurfio rhwystrau sylweddol o ran cael cyflogaeth dda ac mae cymorth cymdeithasol ac emosiynol da yn helpu i fynd i'r afael â hunanhyder isel a straen dechrau swydd newydd, felly mae dealltwriaeth o bwysigrwydd llesiant yn sail i'n holl waith prosiect.

Mae'r achosion cynyddol o iechyd meddwl gwael a welir yn y gymuned yn ystod y cyfnodau o gyfyngiadau symud wedi annog staff prosiect i ymgymryd â hyfforddiant arbenigol i gefnogi sgysiau gyda phobl sy'n cael trafferth ac fel y nodwyd uchod, mae un wedi dechrau ar ei hyfforddiant i fod yn gwnselydd.

Mae'r tîm ymchwil wedi cwblhau gwerthusiad o brosiect peilot CAMHS Mewngymorth i Ysgolion ar gyfer Llywodraeth Cymru. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys siarad ag ysgolion a gwasanaethau iechyd meddwl mewn tair ardal beilot yng Nghymru. Gellir cael gafael ar yr adroddiadau ar wefan Llywodraeth Cymru: [Cymraeg](#) [Saesneg](#). Gwnaeth y tîm ymchwil hefyd gwblhau [Adolygiad o'r dystiolaeth ar wasanaethau iechyd meddwl pob oed](#) (ar gyfer Llywodraeth Cymru), wedi'i fwriadu i lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.

Gweithio gyda'r Sector Gwirfoddol yng Nghymru

Rydym yn parhau i ddarparu cymorth gwerthuso i'r rhaglen Buddsoddi Lleol a gynhelir gan yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau. Gan ddechrau yn 2017, rydym yn gweithio dros 10 mlynedd gyda'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau i gefnogi'r 13 o gymunedau yn y rhaglen i gofnodi'r dysgu o'r cymorth a buddsoddi (£1 filiwn fesul cymuned) y maent yn cael gafael arnynt.

Yn 2020, newidiodd ffocws y gwerthusiad i drafod sut y gwnaeth cymunedau a rhaglenni ymateb i'r pandemig. Arweiniodd hyn at ddarn o ymchwil a gomisiynwyd ar y cyd gan yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau a'r bartneriaeth Llechi, Glo a Chefn Gwlad, a [drafododd ymateb cymunedau i'r pandemig](#), ar draws saith sir yng Nghymru (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro a Wreccsam. A gwaith gydag Interlink sy'n trafod ymatebion cymunedol yn RhCT.

Rydym hefyd, y flwyddyn hon, wedi cwblhau gwerthusiad o brosiect sector gwirfoddol gyda phum partner gyda'r nod o fynd i'r afael ac ynysu ac unigrwydd ymhlith pobl hŷn ym Mhowys. Y partneriaid oedd Gofalwyr Credu, Cyngor ar Bopeth Powys, Age Cymru Powys, RVS a Hygyrchedd Powys. Dros dair blynedd gwnaethant weithio gyda'i gilydd i rannu'r hyn a ddysgwyd a meithrin cysylltiadau sydd o fudd i'r bobl hŷn y maent yn gweithio gyda nhw. Eu nod oedd datblygu model o weithio sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n canolbwyntio ar y person a rhoddodd Pobl a Gwaith gymorth 'cyfaill beirniadol' a gwerthusol ochr yn ochr â'r prosiect.

Mae gwaith gwerthuso arall sy'n cael ei wneud yn y sector gwirfoddol yn cynnwys y prosiect Creu Cynnydd a gynhelir gan Theatr Spectacle yn Rhondda Cynon Taf; rhaglen 'hyfforddi'r hyfforddwr' sy'n cael ei chynnal ledled Cymru gan Cerdd Gymunedol Cymru; Prosiect Mamwlad a gynhelir gan Gofal a Thrsio Powys ac Age Cymru Powys; a rhaglen cymorth yn y cartref a gynhelir gan Age Cymru Gorllewin Morgannwg

Mae Pobl a Gwaith yn hwyluso rhwydwaith Talwrn o arweinwyr y sector gwirfoddol ledled Cymru. Mae'r grŵp wedi parhau i gyfarfod bob yn ail fis ond mae'r cyfarfodydd wedi bod ar-lein. Yn ogystal â rhannu'r hyn a ddysgwyd o'n gwaith, mae'r grŵp yn trafod materion sy'n berthnasol i'r sector ac ar hyn o bryd mae'n trafod prosesau sy'n ymwneud â chofnodi gwerth gwaith cymunedol.

Mae'r bartneriaeth Llechi, Glo a Chefn Gwlad a gynullwyd gan Pobl a Gwaith, wedi tyfu o'r trafodaethau yn Talwrn.² Mae'n ceisio datblygu capasiti'r partneriaid a hefyd i rannu'r hyn a ddysgwyd gennym â'r sector ehangach yng Nghymru.

² [Slate, Coal and Countryside - Talwrn](#)
[Llechi, Glo a Chefn Gwlad - Talwrn](#)

LLECHI | GLO | CEFN GWLAD



SLATE | COAL | COUNTRYSIDE

Mae'r prosiect hefyd yn rhoi cyfle gwerthfawr i 27 o bobl dreulio blwyddyn yn gweithio yn eu cymuned eu hunain ac adeiladu sgiliau datblygu cymunedol.

Partneriaethau

Mae Pobl a Gwaith yn ymgymryd â gweithio mewn partneriaeth ym mhob un o'i weithgareddau ac mae llawer o'r adroddiad hwn yn adlewyrchu hynny - boed gyda chydweithwyr ymchwil, mentrau cymdeithasol, awdurdodau lleol neu grwpiau a rhwydweithiau eraill y trydydd sector. Mae James Hall yn arwain ar hyn ar gyfer y gwaith yn y Rhondda (drwy rwydwaith anffurfiol Rhondda Gryfach) ac mae hefyd yn cysylltu â rhai rhwydweithiau y tu hwnt i'r trydydd sector traddodiadol. Yn y Rhondda, mae James Watts-Rees, Natasha Burnell a James Hall i gyd ar fyrddau sefydliadau eraill fel ffordd o rannu dysgu, adnoddau ac arfer gorau. Mae James Watts-Rees ar Fwrdd Theatr Spectacle, mae Natasha Burnell ar bwyllgor trefnu Hyrwyddwyr St. Anne ar gyfer Ynyshir (ac mae'n helpu i drefnu pethau gydag eraill yn y pentref) ac mae James Hall ar Fyrddau Creu Eich Lle (Croeso i'n Coedwig) ac Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian. Mae James Hall hefyd yn cynrychioli Pobl a Gwaith ar rwydweithiau a ffurfiwyd gan Fanc Lloegr yng Nghymru ac Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd, a gofynnwyd iddo gyfrannu safbwyntiau ar effeithiau newid economaidd mewn cymunedau difreintiedig yn rheolaidd. Mae hefyd wedi creu cysylltiad ag Athro yn yr Ysgol Fusnes a'i myfyrwyr gyda Siambr Fasnach Treorci drwy ei gadeirydd ac erbyn hyn mae is-raddedigion ac ôl-raddedigion yn seilio rhywfaint o'u hymchwil i economeg leol ar drawsnewidiad Treorci dros y blynyddoedd diwethaf.

Diogelu ein systemau ar gyfer y dyfodol

Mae argyfwng COVID wedi rhoi cryn dipyn o straen ar system TG eithaf hen, tra hefyd yn gwneud ein cysylltedd ar-lein yn bwysicach nag erioed. Gyda chymorth gan Sefydliad Rank, mae Pobl a Gwaith wedi gallu symud o weinydd swyddfa i system sy'n seiliedig ar y cwmwl sy'n ddiogel ac yn fwy cadarn. Gweithiodd James Hall (y rheolwr TG) gyda'n harbenigwyr cymorth TG (BccIT) i symud ein seilwaith TG a'n storio i'r cwmwl (h.y. wedi'i gynnal oddi ar y safle). Yn ogystal â'r fantais o gael darpariaeth TG sy'n cael ei diweddarau mewn amser real yn hytrach na phob pum mlynedd (gyda'r costau cyfalaf cysylltiedig), mae mudo i'r cwmwl yn golygu y gall Pobl a Gwaith weithredu mewn unrhyw swyddfa neu gartref sydd â chysylltiad diogel â'r rhyngwyd. Rydym hefyd wedi mudo ein llinell dir yng Nghaerdydd i linell Protocol Llais Dros y Rhyngwyd (VOIP), gan gadw ein rhif lleol ac nid yw hyn yn golygu bod angen i ni fod mewn unrhyw leoliad penodol. Mae hyn yn creu amrywiaeth o opsiynau i ni eu hystyried lle bydd ein swyddfa gofrestrdig wedi'i lleoli yn y dyfodol (ac mae hyn yn debygol o aros yng Nghaerdydd).

Camau nesaf

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gyflogaeth, sgiliau, llesiant a datblygu cynaliadwy yn y flwyddyn i ddod, gyda ffocws penodol ar waith seiliedig ar le a datblygu economaidd cymunedol. Mae Rhian Edwards, ein harweinydd ar y prosiect Llechi, Glo a Chefn Gwlad yn treulio 2021 yn cofnodi sut y mae pobl yn y Rhondda wedi profi COVID-19 a'r cyfyngiadau symud. Mae'n cyfweld â phobl ac yn rhannu eu straeon i greu darlun cryf o'r hyn sydd wedi digwydd a'r hyn sy'n gorfod digwydd nawr i adeiladu cymuned gryfach wrth symud ymlaen.

Gobeithio y bydd prosiect PIAS yn lansio fel menter annibynnol eleni, gyda chymorth parhaus gan Pobl a Gwaith.

Rydym yn gobeithio adeiladu ar brosiectau Golau Gwyrdd a Rhondda Web i ddatblygu sylfaen sgiliau gryfach a hyrwyddo menter leol.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda phartneriaid o bob rhan o Gymru i adeiladu dealltwriaeth well o'r hyn sy'n gweithio wrth hyrwyddo adfywio economaidd cymunedol.

Mae Pobl a Gwaith yn bwriadu llunio cyfres o bapurau byr i ysgogi trafodaeth am y materion rydym yn eu gweld o'n gwaith.

Tudalen sefydliad LinkedIn: <https://www.linkedin.com/company/people-and-work-unit>

Twitter: @PoblGwaith

Facebook: www.facebook.com/pawu1984